**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-19-02 (p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Tachwedd 2002 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, |
| **Teitl:** | Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Godi Tâl am Ofal Cartref |

**Pwrpas**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ganllawiau statudol i awdurdodau lleol i sicrhau polisïau tecach o ran codi tâl am ofal yn y cartref a gwasanaethau cymdeithasol eraill y tu allan i'r cartref. Ceir copi o'r canllawiau, a ddosbarthwyd i awdurdodau lleol, yn Atodiad A.

**Cefndir**

2. Mae cefndir manwl y canllawiau hyn ar gael yn HSS-10-02 (p2). O dan y Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983, mae gan gynghorau yr hawl i benderfynu pa systemau codi tâl (os o gwbl) i'w gweithredu ar gyfer gwasanaethau dibreswyl i oedolion fel gofal cartref, gofal dydd a gofal seibiant, pryd ar glud etc. O fewn yr hawl hon, mae'n rhaid i'r tâl am y gwasanaeth fod yn rhesymol ac os yw'r cyngor yn fodlon na all defnyddiwr fforddio'r tâl, ni ofynnir iddynt dalu mwy nag y gallant ei fforddio.

3. Mae pob awdurdod yng Nghymru wedi cyflwyno trefn i godi tâl am wasanaethau dibreswyl, ond fel gydag awdurdodau lleol y gweddill o'r DU, mae'r taliadau yn amrywio'n fawr. Bu hyn yn destun bryder am nifer o flynyddoedd ac arweiniodd at lunio a chyhoeddi canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gynharach eleni. Wrth gyhoeddi'r canllawiau, o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, eglurais fy mwriad i adolygu sut y caiff budd-daliadau anabledd eu trin er mwyn penderfynu faint o dâl i'w godi ar unigolion.

4. Dylid nodi fod pwerau'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cynulliad sefydlu egwyddorion y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol eu hystyried wrth bennu eu taliadau, ond bod rhyddid sylweddol o hyd i awdurdodau lleol weithredu fel y mynnant. Yn ystod hynt y Mesur Safonau Gofal, cafwyd sicrwydd nad ceisio cael pob awdurdod lleol i godi'r un tâl oedd y bwriad. O dan y pwerau yn narpariaethau perthnasol y Ddeddf Safonau Gofal, ni allai'r Cynulliad, er enghraifft, orfodi tariff cenedlaethol o daliadau. Byddai awdurdodau lleol fodd bynnag mewn perygl o gael eu herio'n gyfreithiol gan ddefnyddwyr y gwasanaethau os yw'n amlwg nad ydynt wedi ystyried y canllawiau wrth lunio eu trefniadau codi tâl.

5. Mae'r canllawiau a ddosbarthwyd gennyf felly'n pennu fframwaith eang i sicrhau gofynion sylfaenol

tegwch a chysondeb o fewn amcanion cyffredinol gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ystyried y pwyntiau a wnaethpwyd pan gafodd y ddogfen ddrafft ei hystyried gan y Pwyllgor ar 1 Mai (cafwyd crynodeb o hyn yn llythyr Kirsty Williams ataf ar 7 Mai a'm hymateb ar 31 Mai). Cafodd y canllawiau hyn dderbyniad da yn gyffredinol gan gynrychiolwyr defnyddywr y gwasanaeth a gan gynghorau. Mae wedi bod yn anodd cael cydbwysedd yn y mater erioed, ond rwy'n credu bod cydnabyddiaeth erbyn hyn bod y canllawiau yn dechrau cyflwyno rhai egwyddorion clir a mwy o degwch a chysondeb mewn maes sydd wedi ei anwybyddu i raddau helaeth am bron i 20 mlynedd.

**Trin Budd-daliadau Anabledd**

6. Dangosodd y gwaith ymchwil, a gomisiynwyd gennyf yn dilyn yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ac astudiaeth gynharach y Comisiwn Archwilio ('Charging with Care'), bod darlun cymhleth o amrywiadau yn bodoli ar draws Cymru o ran defnyddwyr gwasanaethau a oedd yn gymwys am gyfraddau is ac uwch o Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl neu Bremiwm Anabledd Difrifol yr Atodiad Incwm.

7. Y cynnig yn y papur ymgynghori oedd ei gwneud yn ofynnol, os oedd cynghorau'n penderfynu cymryd budd-daliadau anabledd i ystyriaeth, asesu gwariant y defnyddiwr sy'n gysylltiedig â'r anabledd. Fodd bynnag, golyga hyn y byddai'n rhaid cynnal prawf modd mwy manwl na'r profion y mae'r cynghorau'n eu gwneud ar hyn o bryd ac y bydd angen canllaw cryfach, teg i asesu gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Y canlyniad o bosib fydd trefniant, a fyddai'n golygu nid yn unig ymyrryd â defnyddiwr y gwasanaeth ond hefyd a fyddai hefyd yn gostus ac yn gymhleth i'w weinyddu.

8. Yng ngoleuni hyn dywedais wrth y Pwyllgor y byddwn yn sefydlu gweithgor i edrych ar y syniad o ddiystyru symiau penodol o wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd cyn ystyried budd-daliadau wrth godi tâl. Y bwriad fydd cael mwy o gysondeb tra'n osgoi anfanteision trefniant mwy cymhleth. Sefydlwyd y gweithgor am y tro cyntaf ym mis Medi. Tasg y grwp yw edrych ar syniadau a gwneud gwaith ychwanegol i bennu’r gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd y dylid ei ddiystyru. Ceir copi o'r cylch gwaith a'r aelodaeth yn atodiadau B a C.

9. Mae'r gweithgor wedi gwneud llawer ac wedi ystyried nifer o opsiynau o ran sut y gellid diystyru rhywfaint o'r gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd. Y dewis sy'n cael ei ffafrio yw diystyru canran sylfaenol o fudd-daliadau anabledd ar gyfer pob defnyddiwr sy'n eu derbyn (gan wahaniaethu, er enghraifft, rhwng lwfansau ar gyfer elfennau unigol o wariant, neu driniaeth wahanol i wahanol anableddau). Mantais ymagwedd o'r fath yw ei bod yn eglur i'r defnyddwyr ac yn syml i'w gweithredu. Byddai hefyd yn golygu nad oes angen adolygu y swm yn rheolaidd gan y byddai'n cynyddu'n unol â'r cynnydd mewn budd-daliadau anabledd. Mae'r grwp yn awr yn ystyried y lefel briodol o symiau i'w diystyru.

10. Ar wahân i'r gost bosibl, problem sylweddol yw'r diffyg data cyson o gofio amrywiaeth y systemau cyfrifo a chofnodi sydd gan pob cyngor. Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn diystyru yn y ffordd fwyaf ymarferol i ddefnyddwyr. Er gwaethaf y cymhlethdodau rwy'n awyddus ein bod yn parhau i

ddatblygu'r maes hwn. Rwyf hefyd yn awr wedi gofyn i'r grwp dreialu mewn rhai meysydd penodol er mwyn asesu effaith posibl y newidiadau a'n helpu i gael darlun mwy cywir o effaith ymarferol diystyru yn ogystal â dod o hyd i unrhyw broblemau ymarferol wrth weithredu'r cynllun.

11. Yn y cyfamser mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau wedi eu cyhoeddi. Mae hyn wedi rhoi amser i'r cynghorau ddechrau ar y gwaith o asesu ac adolygu eu systemau codi tâl ac wedi dangos ein hymagwedd gyffredinol tuag at wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

12. Os y byddaf, o ganlyniad i gyngor y grwp, yn cynnig trefniadau ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd na chafodd eu cynnwys yn y papur ymgynghori gwreiddiol, bydd angen cynnal ymgynghoriad pellach gydag awdurdodau lleol a defnyddwyr. Fe fyddwn yn hapus i rannu casgliadau'r gweithgor gyda'r Pwyllgor pan fyddant ar gael.

**Cyfnod Amser ac Effaith**

13. Mae hwn yn faes cymhleth ac mae angen i ni sicrhau bod y canllaw terfynol o fudd i ddefnyddwyr ond hefyd yn ymarferol i'r awdurdodau lleol. Bydd angen i ni sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o amser i wneud unrhyw newidiadau i'r systemau presennol. Bydd angen amser arnynt i ystyried goblygiadau y canllawiau ar eu trefniadau presennol o godi tâl, i ymgynghori â chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau yn lleol ar y newidiadau sy'n cael eu cynnig, i ddeall y goblygiadau ariannol ac i roi rhybudd o'r newidiadau.

14. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi codi eu tâl yn raddol. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o oddeutu £18m o daliadau y flwyddyn, ac o ystyried y tueddiadau presennol, gellir rhagweld y byddant yn codi oddeutu 15 y cant y flwyddyn. Bydd awdurdodau lleol yn disgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru ad-dalu'r golled o ganlyniad i weithredu canllawiau diystyru budd-daliadau anabledd neu atodiad incwm dan weithdrefnau 'beichiau newydd' cyllid llywodraeth leol. Fel y nodais ym mhapur HSS-10-02 gallai'r gost o ddiystyru budd-daliadau anabledd fod yn sylweddol. Er enghraifft, mae rhai cynghorau wedi amcangyfrif bod oddeutu 60 y cant o'u hincwm o ganlyniad i godi tâl yn dod oddi wrth bobl sy'n derbyn un o'r budd-daliadau anabledd.

15. O gofio hyn nid wyf yn cynnig gweithredu trefniadau newydd ar hyn o bryd ar gyfer trin budd-daliadau anabledd, ond rwyf yn ysytried gwneud hynny yn 2004-5 yng ngoleuni gwaith pellach gan gynnwys y treialu arfaethedig. Yn hytrach, rwy'n cynnig y caiff y canllawiau hyn eu gweithredu fesul dau gam:

**O 1 Ebrill 2003 ymlaen**

- Bydd angen i gynghorau sicrhau na chodir tâl pellach ar ddefnyddwyr sy'n derbyn atodiad incwm neu lwfans chwilio am waith (yn seiliedig ar incwm), sydd â chyfanswm cyflog sy'n cyfateb â'r lefel "sylfaenol" a'r byffer o 25%;

- Dylid diystyru enillion fel rhan o incwm mewn asesiadau codi tâl;

- Pan fydd cynghorau yn ystyried cynilion a chyfalaf, dylent, o leiaf, gael eu trin yn unol â'r Canllawiau Codi Tâl am Lety Preswyl.

**O Ebrill 2004**

- Dylid gweithredu pob rhan arall o'r canllawiau fydd yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar sut i drin gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd.

16. Bydd pobl sy'n derbyn atodiad incwm a budd-daliadau anabledd yn elwa'n naturiol o'r byffer o 25% yn uwch na'r byffer atodiad incwm ar gyfer mis Ebrill 2003.

**Cydymffurfio**

17. Mae'r pwerau sydd gan Weinidogion dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 1970, fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, wedi eu trosglwyddo i'r Cynulliad ac yn rhan o'm swyddogaethau. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

18. Papur i'w nodi a'i drafod.

**Jane Hutt,**

**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Man Cyswllt**

Andrew Powell-Chandler, Is-adran 3, Polisi Gofal Cymdeithasol

Ffôn 029 2082 3454